| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Crëwyd:** | 03/05/2019 |
| **Dyddiad y Cyhoeddwyd:** | 10/05/2019 |
| **Rhif y Fersiwn:** | 1.00 |

| | |
|---|---|
| **Man Gwasanaeth:** | Iechyd yr Amgylchedd |
| **Man Gweithio:** | Rheoli |
| **Manylion Cyswllt:** | 01443 811304<br>diogelwchiechydbwyd@caerffili.gov.uk<br>EHADMIN@CAERFFILI.GOV.UK |
| **Enw'r Hysbysiad Preifatrwydd:** | Cyngor a Gorfodaeth Busnes |
| **Disgrifiad o'r Hysbysiad Preifatrwydd:** | Bydd yr hysbysiad preifatrwydd hwn yn egluro sut y bydd Grŵp Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn defnyddio'r wybodaeth yr ydych wedi'i darparu amdanoch chi'ch hun (data personol) pan fydd Grŵp Iechyd yr Amgylchedd wedi cysylltu â chi i roi cyngor busnes, neu gymryd unryw gamau mewn perthynas â gorfodi'r gyfraith. |

# Sut y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth

## Y ffynhonnell a'r math o wybodaeth a brosesir

Gall Grŵp Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili roi cyngor busnes i chi / i'ch busnes neu'r busnes sy'n eich cyflogi chi ar ôl derbyn:

- Ymholiad gennych chi neu'ch cwmni
- O ganlyniad i ymweliad arolygu
- O ganlyniad i dderbyn cwyn defnyddiwr

O ran arolygiadau a chwynion defnyddwyr, gallwn hefyd gymryd camau gorfodi yn eich erbyn chi / eich busnes neu'r busnes sy'n eich cyflogi.

**Categorïau o ddata personol a geir**

Os bydd Grŵp Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn derbyn cwyn defnyddiwr amdanoch chi / eich busnes neu fusnes yr ydych yn cael eich cyflogi ganddo, bydd yr adran hon yn egluro'r categorïau o ddata personol y gellir eu cofnodi gennym amdanoch chi / eich busnes neu fusnes rydych yn cael eich cyflogi ganddo:

- Enw
- Cyfeiriad
- Manylion Cyswllt
- Swydd yn y busnes
- Enw'r Busnes:
- Manylion am fater cwyn y defnyddiwr

